**Enw'r Ysgol: Y GADER**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

**CA3:** Mae'r adran yn arfarnu safon y deilliannau yn rheolaidd yn y pwnc ac yn cynllunio ar gyfer gwella. Mae'r adran yn gosod targedau penodol ar gyfer pob blwyddyn ac yn addasu y cynlluniau gwaith a'r asesiadau yn flynyddol i geisio cyrraedd y targedau hyn.
2012-3 – targed o godi nifer y bechgyn oedd yn cyrraedd lefel 5. Addaswyd dwy dasg asesu blwyddyn 9 er mwyn cynnig cwrs mwy apelgar i fechgyn.
2013-4 – targed o godi nifer y disgyblion yn llwyddo i gyrraedd lefel 6. Addaswyd y tasgau asesu gan gyflwyno disgrifiadau clir o lefelau a thargedu unigolion ar gyfer lefel 6.
2014-5 – targed o godi nifer y disgyblion yn llwyddo i gyrraedd lefel 7. Mae'r adran eleni wedi gwneud defnydd llawer helaethach o gyfundrefn tracio yr ysgol i godi ymwybyddiaeth yr athro a'r disgyblion o darged pob disgybl yn y pwnc ac i adnabod ac ymateb i enghreiftiau o dangyflawni.

| | Lefel 4 | Lefel 5 neu uwch | Lefel 6 neu uwch | Lefel 7 |
|---|---|---|---|---|
| 2014-5 | 8.9% | 91% | 41.7% | 17.9% |

Mae'r data cymhariaeth bechgyn a merched yn ffafriol yn y pwnc – gyda'r bechgyn eleni yn gwneud yn sylweddol well na'r merched. (Roedd 12 disgybl wedi cyrraedd lefel 7 – gyda 9 ohonynt yn fechgyn)

**CA4:** Mae canlyniadau TGAU yr ysgol wedi bod yn gyson dda iawn dros gyfnod o dros 10 mlynedd. Mae'r canlyniadau yn gyson ymysg y gorau yng Ngwynedd. Mae'r mwyafrif o'r digyblion yn llwyddo i gael eu gradd uchaf yn y pwnc hwn. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yn darparu deunyddiau adolygu effeithiol – yn gardiau dysgediaeth, llyfryn adolygu a chyflwyniad Pwyntpwer ar gyfer pob un o'r wyth uned TGAU. Cynhelir sesiynau adolygu ar ôl ysgol. Bydd disgyblion yn hunanarfarnu eu cynnydd yn rheolaidd ac yn gosod targedau ar gyfer gwella yn y pwnc. Bydd yr adran yn ceisio cynnal pob disgybl trwy gydol y ddwy flynedd CA4 gan gysylltu gyda rhieni os oes angen i drefnu cynhalaeth ychwanegol.

Canlyniadau TGAU 2014-5: (Roedd 20 disgybl wedi eisteddd yr arholiad TGAU)
Wedi cyrraed A/A* - 57% o'r bechgyn a 100% merched.
Cohort A* / C - bechgyn 85.7% a merched 100%
Roedd un bachgen wedi gael gradd 'D' sydd yn golygu fod yn disgyn i'r cohort A* - G.
Roedd yr adran wedi cyrraedd targed y pwnc eleni sef 95%.
Roedd sgor cyfartalog y pwnc yn 53. Roedd hwn yn sgor sylweddol uwch na'r sgor cyfartalog pynciau eraill (sef 45) a'r sgor pwnc ym mhob ysgol (sef 45)

**Materion i gael sylw**

- Parhau i gynnal ac annog pob disgybl CA4 i ymgyrraedd am y radd uchaf posibl.
- Bydd angen addasgu y cynlluniau gwaith yn ystod 2014-5 gan fod yr ysgol yn symud yn ôl i ddysgu CA3 mewn grwpiau cymysg allu. Mae'r adran yn gweld bydd yma sialens i gynllunio fel bod y disgyblion targed lefel 7 yn derbyn digon o her i gyrraedd eu potensial mewn grwp gallu cymysg. Bydd angen addasu y tasgau asesu ar gyfer y grwpiau newydd yma.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae Addysg Grefyddol yn draddodiadol wedi cael amser têg ar amserlen yr ysgol. Mae pob disgybl CA3 yn cael 2 gyfnod dysgu o 50 munud yr un pob wythnos. Mae'r grwpiau TGAU yn cael 3 cyfnod dysgu o 50 munud yr wythnos. Ers dwy flynedd mae'r grwpiau Addysg Grefyddol Statudol CA4 wedi gael un cyfnod dysgu 50 munud yr wythnos.
- Oherwydd fod yr athrawes Addysg Grefyddol wedi bod yn dysgu 7 gwers o Addysg Grefyddol Statudol eleni mae 4 dosbarth CA3 wedi cael eu dysgu gan athrawon digymhwyster yn y pwnc. Mae'r athraweon hyn wedi cael pob arweiniad gan y pennaeth adran. Mae cynllun gwaith manwl, yr holl daflenni gwaith, deunyddiau darllen, tasgau asesu a chyflwyniadau Pwyntpwer wedi eu darparu ar gyfer yr athrawon hyn gan y pennaeth adran.Bydd y pennaeth adran yn asesu sampl o dasagau asesu pobl grwp dysgu ac yn monitro llyfrau pob grwp.
- Mae'r pennaeth pwnc yn raddedig mewn Efrydiau Beiblaidd gyda dros 30 mlynedd o ddysgu'r pwnc yn Ysgol y Gader. Mae yn ymdrechu i gadw ei arbenigedd yn y pwnc yn gyfredol trwy fynychu pob cwrs addas sydd yn cael ei gynnig, trwy ddarllen yn eang o gwmpas y pwnc ac yn ymchwilio safleoedd addysgol perthnasol ar y rhyngrwyd. Bydd cyfle rheolaidd hefyd o fewn yr ysgol i drafod ac edrych ar waith cyd-athrawon. Mae cydweithio effeithiol o fewn cyfadran y Dyniaethau yn rhoi cyfle i'r tri athro i rannu arfer dda dysgu ac addysgu.
- Mae'r rhaglen astudio CA3 yr adran wedi ei seilio ar y Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Mae'r adran wedi cynllunio maes llafur sydd yn astudio 10 maes ystod y Fframwaith ac yn asesu tair prif sgil y pwnc.
- Mae'r ysgol yn dilyn maes llafur TGAU /Opsiwn B y CBAC
- Mae gwersi Addysg Grefyddol Statudol CA4 yn dilyn cwrs a lunwyd gan yr athrawes ac sydd hefyd yn cyfrannu at y cynhwysterau Bac Cymraeg a'r Medr Allweddol 'Gweithio Gyda Eraill'.
- Mae'r adran yn gallu buddsoddi llai pob blwyddyn mewn adnoddau newydd oherwydd y crebachu sydd ar wariant ym myd addysg. Anodd bellach yw prynu llyfrau ac fe wneir mwy o ddefnydd o'r rhyngrwyd ac o gyflwyniadau Youtube ar lawr y dosbarth.
- Mae gan yr ysgol raglen arsylwi gwersi yn ei le a bydd y Pennaeth Dyniaethau ac aelod o'r tim reoli yn dod i fonitro ansawdd y dysgu. Roedd y wers ddiwethaf a arsylwyd wedi ei graddio yn 'da'.
- Mae pob disgybl yn ymwybodol o'i radd targed yn y pwnc trwy gyfrwng taflen a osodir ar glawr y llyfr gwaith. Nodir ar y daflen y targed ar gyfer diwedd CA3 ynghyd â gradd pob tasg asesu estynedig a asesir yn ystod y flwyddyn. Bydd y graddau hyn yn cael eu bwydo mewn i sustem tracio yr ysgol a bydd unrhyw dangyflawni yn dod yn amlwg i'r pennaeth adran wrth iddi ddadansoddi y data yma yn rheolaidd. Bydd yr adran, y Pennaeth Dyniaethau a'r Pennaeth Cyfnod Allweddol yn dod i mewn i'r broses o geisio codi cyrhaeddiadd disgyblion. Adroddir i rieni yn fanwl yn y nosweithiau rhieni blynyddol – gan gyfeirio at y gwaith dosbarth, y gwaith ysgrifenedig, llefaredd a thasgau asesu estynedig pob disgybl. Bydd dau neu tri targed ar sut i wella yn cael eu trafod gyda'r disgybl a'i rieni.
- Bydd pob disgybl CA4 yn derbyn gradd targed ar sail eu cyrhaeddiad ar ddiwedd blwyddyn 9. Y radd yma fydd man cychwyn blwyddyn 10 a bydd gradd tua hanner y disgyblion yn cael ei godi yn ystod CA4 wrth i'r disgyblion wneud cynnydd. Mae llwyddiant pob disgybl yn cael ei ddathlu a'i gymeradwyo mewn sylwadau cadarnhaol ar waith – ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd yr athrawes yn buddsoddi llawer o amser yn sicrhau fod gan pob disgybl CA4 ddealltwriaeth hyderus o arddull ateb pob cwestiwn sydd yn ymddangos ar y papur arholiad.

**Materion i gael sylw**

- Mae angen cyn llunio mwy o dasgau estynedig ar gyfer y disgyblion CA4 sydd yn dilyn y cwrs TGAU, tasgau a fydd yn atgyfnerthu y fframwaith llythrennedd.
- Mae angen cynllunio mwy o dasgau gwaith ymchwilio grwp ar gyfer yr un disgyblion – er mwyn hyrwyddo sgiliau dysgu annibynnol y disgyblion gwanaf.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae gwasanaethau o addoliad yn digwydd yn rheolaidd yn y cyfnod cofrestru. Mae adnoddau wedi cael eu argymell i'r athrawon dosbarth eu defnyddio wrth gynllunio yr addoliad e.e. ffeil o ddarlleniadau a gweddiau addas. Mae nifer hefyd yn gwneud defnydd o'r gwasanaethau sydd ar safle Beibl.net.
- Mae llai o wasanaethau addoliad yn y neuadd wedi cael eu cynnal yn ystod 2014-5
- Mae agwedd y mwyafrif o ddisgyblion yn gadarnhaol parthed cymryd rhan mewn addoli ar y cyd.
- Mae'r athrawes Addysg Grefyddol yn achlysurol wedi bod yn darparu gwasanaeth i'w ddefnyddio yn y gwsaanaethau ysgol gyfan ar fore Llun – gyda'r prif swyddogion yn arwain yr addoliad.
- Mae nifer sylweddol o Dystion Jehofa yn dewis peidio mynychu'r cyfnod o addoliad ysgol gyfan.
- Yn ystod 2014-5 fe ymwelodd un clerigwr lleol i arwain yr addoliad ysgol gyfan (Offeiriad y Santes Fair – ar achlysur y Nadolig)

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Trefnwyd eisioes i'r athrawes Addysg Grefyddol gael amser digyswllt yn ystod y flwyddyn addysgol 2015-6 i baratoi gwasanaeth yn rheolaidd ar gyfer y gwasanaethau ysgol gyfan ar fore Llun. Bydd hefyd yn llunio dau wasanaeth byrach ar gyfer eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth yn ystod yr wythnos.
- Yn ystod 2015-6 bydd yr ysgol yn ailsefydlu'r drefn o gynnal gwasanaeth boreuol unwaith yr wythnos ar gyfer CA3 ac unwaith ar gyfer CA4 – yn ogystal â'r addoliad ysgol gyfan ar fore Llun. Bydd yr athrawon dosbarth yn gyfrifol am drefnu yr addoliad yma.
- Yn ystod 2015-6 bydd angen monitro fod pob dosbarth yn cael cyfle rheolaidd i 'addoli ar y cyd'.

| Rhagorol | | Da | | Digonol | √ | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: David Jones (Pennaeth (mewn gofal))

Dyddiad: 4/6/15